*Cafodd yr asesiad effaith hawliau plant ar gyfer Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ("Deddf Plant Cymru") ei ystyried yn wreiddiol cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Mae'r asesiad effaith hwn yn ailasesu effeithiau posibl (Medi 2020) yn dilyn rhoi Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Plant Cymru ym mis Mawrth 2020. Mae'r asesiad effaith hwn wedi'i ddiweddaru yn ystyried unrhyw effeithiau posibl ar hawliau plant yn ystod y cyfnod o weithgarwch gweithredu hyd y daw Adran 1 (dileu amddiffyniad cosb resymol) y Ddeddf i rym ym mis Mawrth 2022.*

*Ochr yn ochr â'r asesiad effaith hwn mae'r effeithiau ar blant â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried yn Atodiad B; ar y Gymraeg yn Atodiad C ac ar y system cyfiawnder troseddol yn Atodiad D.*

## A: ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

**1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.**

1.1 Cefndir a chyd-destun

Yn ystod y cyfnod rhwng y Cydsyniad Brenhinol (Mawrth 2020) a dechrau Adran 1 (diddymu amddiffyniad cosb resymol) o Ddeddf Plant Cymru ym mis Mawrth 2022 mae Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu mewn ffordd ymarferol a phosibl. Diben Deddf Plant Cymru yw gwahardd cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru drwy ddiddymu amddiffyniad cosb resymol yn gyfreithiol.

Nod Deddf Plant Cymru yw helpu i amddiffyn hawliau plant drwy wahardd rhieni a'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis yng Nghymru rhag cosbi eu plant yn gorfforol, gan gynnwys y rheini sy'n ymweld â Chymru. Byddai hynny'n golygu bod plant yng Nghymru yn cael eu diogelu'n gyfreithiol rhag cosb gorfforol yn yr un ffordd ag oedolion.

Mae gwahardd cosbi plant yn gorfforol yn gyson ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)[1]. Mae'n cyd-fynd â'r arweiniad a roddwyd gan Lywodraeth Cymru wrth osod ein polisi ar gyfer plant a'u teuluoedd yn glir iawn o fewn cyd-destun CCUHP. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i fynegi mewn deddfwriaeth drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[2].

Dros nifer o flynyddoedd, mae cenhedloedd y DU wedi cael eu beirniadu am beidio â chyflawni dyletswydd Erthygl 19 CCUHP[3] sy'n nodi'r canlynol:

> "*States Parties shall take all appropriate legislative, administrative, social and educational measures to protect the child from all forms of physical or mental*

[1] https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf
[2] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents
[3] https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf

*violence, injury or abuse, neglect or negligent treatment, maltreatment or exploitation, including sexual abuse, while in the care of parent(s), legal guardian(s) or any other person who has the care of the child."*

Mae argymhellion dilynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi datgan y dylai'r Deyrnas Unedig (fel Aelod-wladwriaeth) wahardd pob math o gosb gorfforol yn y teulu, gan gynnwys diddymu pob amddiffyniad cyfreithiol[4] [5].

Amddiffyniad i'r troseddau ymosod a churo sydd eisoes yn bodoli yn y gyfraith gyffredin yw amddiffyniad cosb resymol. Nid yw diddymu amddiffyniad cosb resymol yn creu trosedd newydd. Dim ond â throseddau sy'n bodoli eisoes, sef ymosod a churo cyffredin, y mae'r amddiffyniad yn ymwneud. Ni fyddai'r cosbau cyfredol am y troseddau hyn yn newid felly. Mae'r heddlu eisoes yn derbyn adroddiadau am oedolion sy'n cosbi plant yn gorfforol, ac yn ymateb i achosion o'r fath a'u cofnodi, yn unol â phrosesau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.

Ni fydd cael gwared ar yr amddiffyniad yn amharu ar egwyddorion y gyfraith gyffredin, sy'n cydnabod y caiff rhiant ymyrryd yn gorfforol, er enghraifft, i ddiogelu plentyn rhag niwed, neu helpu â gweithgareddau bob dydd fel gwisgo neu at ddibenion glendid a hylendid.

Cyflwynwyd Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) i'r Cynulliad ar 25 Mawrth 2019. Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn craffu ar Gyfnod 1[6]. Derbyniodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig yn cynnwys gan grwpiau lobïo o blaid ac yn erbyn y ddeddfwriaeth; gan Gomisiynydd Plant Cymru; gan weithwyr iechyd proffesiynol; y Trydydd Sector; y sector addysg; gan yr heddlu; Gwasanaeth Erlyn y Goron; a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Clywsant gan y rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen, yn darparu gwasanaethau ac sydd â chyfrifoldeb statudol i ddiogelu plant a gweithredu er eu lles gorau (e.e. yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaethau Cymdeithasol, cynrychiolwyr athrawon ac ystod eang o weithwyr iechyd proffesiynol). Heb eithriad, dywedodd yr unigolion hynny wrth y Pwyllgor y byddai Ddeddf Plant Cymru'n gwella eu gallu i ddiogelu plant sy'n byw yng Nghymru gan y bydd yn gwneud y gyfraith yn glir.

*1.2 Safbwyntiau plant a phobl ifanc*

Er mwyn i lais plant a phobl ifanc gael ei glywed fel rhan o'u gwaith craffu, gwahoddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Ieuenctid Cymru i ystyried

---

[4]Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2006): Yr Ail Sesiwn ar Ddeugain. Sylw Cyffredinol Rhif 8: Hawl y plentyn i gael ei ddiogelu rhag cosb gorfforol ac unrhyw fath arall o gosb greulon neu ddiraddiol. Genefa: y Cenhedloedd Unedig https://www.refworld.org/docid/460bc7772.html

[5] Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, Sylwadau Cloi ar bumed adroddiad cyfnodol Teyrnas Unedig Prydain Fawr ac Iwerddon, argymhelliad paragraff 41 http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2fPPRiCAqhKb7yhskHOj6VpDS%2f%2fJqg2Jxb9gncnUyUgbnuttBweOlylfyYPkBbwffitW2JurgBRuMMxZqnGgerUdpjxij3uZ0bjQBOLNTNvQ9fUIEOvA5LtW0GL

[6] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=24674

egwyddorion cyffredinol y Bil. Mewn cyfarfodydd rhanbarthol ym mis Ebrill 2019, trafododd ac ystyriodd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru egwyddorion cyffredinol y Bil, a chynnal pleidlais gudd ar y cwestiwn: “Ydych chi’n cefnogi egwyddorion Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)? Roedd mwyafrif (70%) o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru’n cefnogi’r Bil.

Yn ogystal, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrth y Pwyllgor ei bod hi’n ymddangos bod mwyafrif llethol plant yn erbyn cosbi plant yn gorfforol a bod llawer yn rhyfeddu nad yw wedi’i wahardd eisoes mewn gwlad ddemocrataidd fodern fel Cymru, sy’n parchu hawliau dynol yn ffurfiol.

Mae rhanddeiliaid wedi cynghori y dylai codi ymwybyddiaeth o’r ddeddfwriaeth gyda phlant a phobl ifanc gael ei ymgorffori yng nghyd-destun ehangach hawliau plant / gweithgarwch parhaus / rhaglenni parhaus. Argymhellwyd y dull hwn hefyd gan Gomisiynydd Plant Cymru mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ddatblygu cynllun a fydd yn nodi sut rydym yn bwriadu codi ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc. Y bwriad yw cael mewnbwn ystyrlon gan blant a phobl ifanc ar y cynllun ymgysylltu hwn.

*1.3 Tystiolaeth*

Mae'r dystiolaeth ymchwil sy'n ymwneud ag effaith bosibl cosb gorfforol ar blant, dulliau eraill yn lle cosb gorfforol, ac agweddau at gosbi plant yn gorfforol wedi'i hystyried. Cafodd crynodeb o'r dystiolaeth berthnasol ei gynnwys at ddibenion yr ymgynghoriad ar dudalennau 12 i 17 o'r ddogfen ymgynghori[7].

Mae'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn cydnabod bod gwaith ymchwil ynghylch rhieni yn cosbi plant yn gorfforol yn gymhleth oherwydd, er enghraifft, mae nifer o ddylanwadau allanol ym mywyd plentyn a allai effeithio ar y canlyniadau; mae nifer o astudiaethau'n dibynnu ar hunan-adroddiadau ôl-weithredol y rhieni; ac mae'n bosibl y gallai rhieni deimlo eu bod dan bwysau i roi barn y maent yn ystyried ei bod yn un dderbyniol yn gymdeithasol.

Mae'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw waith ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid wedi dangos gwelliant o ran iechyd datblygiadol fel canlyniad i gosbi corfforol gan rieni; ac mae'n nodi bod y gwaith ymchwil yn awgrymu bod rhianta cadarnhaol yn gysylltiedig â buddion ar bob cam datblygu ym mywyd plentyn. Mae'n amlinellu barn gyffredin arbenigwyr ym maes datblygiad plant, sy'n cael ei chefnogi gan waith ymchwil, sef nad yw cosb gorfforol yn gweithio, a bod dewisiadau cadarnhaol eraill yn ffordd fwy effeithiol o sicrhau bod plant yn dysgu sut i ymddwyn yn iawn.

Mae'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn cyfeirio at ystod eang o waith ymchwil. Cyfeirir mewn un man at fetaddansoddiad a gynhaliwyd yn 2005, yn cymharu canlyniadau cosbi plant yn gorfforol a thactegau disgyblu eraill. Dyfynnwyd hwn yn anghywir (tudalen 14). Rydym wedi ailedrych ar y dystiolaeth a dod i'r casgliad nad yw'n newid yr asesiad cyffredinol a gyflwynwyd.

[7] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/180109-legislation-consultation-cy.pdf

Ers i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi, mae rhagor o waith ymchwil perthnasol wedi'i gyhoeddi, gan gynnwys pedwar darn ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru:

***'Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc', 2017*[8]**

Dyma rai pwyntiau allweddol sydd wedi codi o'r gwaith ymchwil hwn ymhlith rhieni a gwarcheidwaid plant bach yng Nghymru:

- **Agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant:** Bu newid mewn agweddau ers gwaith ymchwil 2015, a llai o rieni a gwarcheidwaid i blant ifanc yng Nghymru yn cefnogi cosb gorfforol yn 2017. Er enghraifft, yn 2017, roedd 81% o rieni yn anghytuno â'r gosodiad bod angen smacio plentyn drwg weithiau, o'u cymharu â 71% yn 2015.
- **Agweddau tuag at ddeddfwriaeth ar reoli newid ymddygiad plant:** Nid oedd agweddau tuag at ddiwygio'r gyfraith wedi newid yn sylweddol o'u cymharu â'r arolwg yn 2015. Fodd bynnag, roedd 50% o rieni yn arolwg 2017 yn anghytuno y dylai'r gyfraith ganiatáu i rieni smacio eu plant (o'u cymharu â 24% a oedd yn cytuno y dylai). Mewn cwestiwn ychydig yn wahanol, gofynnwyd i rieni a ddylid cael gwaharddiad llwyr ar smacio; roedd 48% yn cytuno y dylid cael gwaharddiad llwyr ar smacio a 39% yn anghytuno.
- **Cyngor a chymorth ar gyfer rheoli ymddygiad plant:** yn arolwg 2017, roedd 40% o rieni wedi adrodd eu bod wedi ceisio cael cyngor neu wybodaeth am reoli ymddygiad eu plant. I'r rhieni hynny, y ffynhonnell fwyaf poblogaidd o ran cyngor a gwybodaeth oedd y rhyngrwyd (52%), wedyn gweithiwr iechyd proffesiynol (35%), ysgol (20%) a ffrind/perthynas (14%). Gofynnwyd cwestiwn tebyg yn arolwg 2015, a dim ond 12% o'r rheini a oedd yn ceisio cael cymorth mewn perthynas â sgiliau rhianta a oedd wedi gwneud hynny ar lein.
- Yn arolwg 2017, roedd 95% o'r rheini a oedd wedi cael cyngor neu wybodaeth am reoli ymddygiad plant wedi adrodd bod hynny wedi cael dylanwad cadarnhaol ar eu sgiliau rhianta neu ar eu hyder: roedd 49% wedi adrodd bod y cyngor a'r wybodaeth wedi helpu llawer, ac roedd 46% wedi adrodd eu bod wedi helpu rhywfaint.

---

[8] Llywodraeth Cymru (2018) 'Agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant ifanc 2017', RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 42/2018 https://llyw.cymru/agweddau-rhieni-tuag-reoli-ymddygiad-plant-ifanc-2017

‘***Parental Physical Punishment: Child Outcomes and Attitudes, 2018***[9]

Mae'r adolygiad hwn yn dynodi bod y dystiolaeth, ar y cyfan, yn cefnogi'r casgliadau canlynol:

- Mae cosb gorfforol ddifrifol a cham-drin plentyn yn gwneud niwed i ddatblygiad y plentyn;
- Er nad oes tystiolaeth bendant bod cosb gorfforol 'resymol' yn effeithio’n negyddol ar blant, mae yna dystiolaeth ei bod yn gysylltiedig ag effeithiau negyddol;
- Nid oes unrhyw dystiolaeth ddibynadwy sy'n dangos bod manteision o ran datblygiad hirdymor i gosb gorfforol 'resymol', na'i bod yn fwy effeithiol wrth newid ymddygiad yn y tymor byr, o gymharu â dulliau eraill anghorfforol;
- Nid yw cosbi plant heriol yn gorfforol yn fwy effeithiol na ffyrdd eraill o ddisgyblu wrth newid eu hymddygiad yn y tymor byr;
- Mae'r rhan fwyaf o ymchwilwyr yn y maes o'r farn bod gan bob cosb gorfforol o dan unrhyw amodau y potensial i fod yn niweidiol i blant.

O ran y cysylltiadau rhwng cosbi corfforol a chanlyniadau hynny i blant, mae'r adroddiad yn egluro bod cannoedd ar gannoedd o astudiaethau ac nad yw pob un ohonynt yn dod i'r un casgliadau. Barn awduron yr adolygiad yw:

*“… the evidence does not definitively show that “reasonable” parental physical punishment causes negative outcomes. But there is evidence of an association with negative outcomes, and no evidence of benefits, either in terms of long-term developmental benefits, or in terms of its efficacy in influencing short-term changes to behaviour relative to other, non-physical means.”*

‘***Legislating to Prohibit Parental Physical Punishment of Children, 2018***[10]

Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys y canfyddiadau canlynol:

- **Mae cysylltiad rhwng deddfu ar gosb gorffol a newid agweddau tuag at ddefnyddio cosb gorffol a nifer yr achosion o gosb gorfforol.** Casgliadau'r adroddiad yw: *“The available evidence supports the view that legislating on physical punishment can contribute to changes in both attitudes towards, and the use of, physical punishment but that sustained information campaigns and support to parents are also needed for legislation to be effective.”*
- **Rôl bwysig ymgyrchoedd gwybodaeth:** *“The conclusion drawn by almost all studies is that corporal punishment bans are associated with declining support for and practice of corporal punishment … but that it is often in*

[9] Carter-Davies L, Bristow D, 2018, Parental Physical Punishment: Child Outcomes and Attitudes, PPIW https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/parental-physical-punishment-child-outcomes-and-attitudes/

[10] Keating H, 2018, Legislating to Prohibit Parental Physical Punishment of Children, PPIW https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/deddfwriaethu-i-wahardd-rhiant-rhag-cosbi-plant-yn-gorfforol/

*combination with other factors (such as changing social policies) and direct causal connections cannot be proved. Information campaigns which are sustained and repeated are necessary, not only to raise awareness of the change, but also to allay fears about increased risks of prosecution for 'trivial' smacks and fears of increased compulsory intervention in family life."*

**'Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: arolwg sylfaenol', 2018[11]**

Ymhlith pwyntiau allweddol y gwaith ymchwil hwn mae:

- **Agweddau tuag at reoli ymddygiad plant** – Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn cytuno â'r datganiad bod angen smacio plentyn weithiau, roedd mwy yn anghytuno â'r datganiad hwn (49%) nag a oedd yn cytuno (35%). Roedd ymatebwyr 16-34 oed yn llawer llai tebygol o gytuno bod angen smacio plentyn weithiau (24%) na'r rheini a oedd yn 55 oed a throsodd (45%). Roedd y rheini a oedd â chyfrifoldebau gofal am blant saith oed neu'n iau hefyd yn llai tebygol o gytuno bod angen smacio plentyn drwg weithiau (28%) o gymharu â'r rheini nad oedd ganddynt gyfrifoldebau gofal o'r fath (38%).

- **Ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth gyfredol** – roedd 58% o bobl a holwyd o'r farn nad oedd y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio eu plant, ac roedd 27% o'r farn bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio. Roedd y 15% a oedd yn weddill yn ansicr. Roedd ymatebwyr hŷn (55 oed a throsodd) yn fwy tebygol o gredu bod smacio yn cael ei ganiatáu (32%), ond roeddent serch hynny yn y lleiafrif.

- **Ymwybyddiaeth o'r newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth** – nododd 28% o bobl eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i'r gyfraith ynghylch cosbi plant yn gorfforol ohonynt eu hunain. Nid oedd gofalwyr plant saith oed ac yn iau yn fwy ymwybodol o hyn na'r rheini nad oedd ganddynt y cyfrifoldebau hyn.

- **Y farn ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth** – gofynnwyd i ymatebwyr p'un a oeddent o blaid diddymu amddiffyniad cosb resymol, yn erbyn neu a oedd angen mwy o wybodaeth arnynt i benderfynu. Yn gyffredinol, roedd y farn yn gymysg, ac roedd cyfrannau tebyg o blaid ei ddiddymu (38%), yn erbyn (31%) ac angen mwy o wybodaeth/ddim yn gwybod (31%). Roedd y rheini a oedd â chyfrifoldebau gofal am blant saith oed ac yn iau yn fwy tebygol o fod o blaid y newid arfaethedig (47% o blaid, 27% yn erbyn) o gymharu â'r rheini nad oedd ganddynt y cyfrifoldebau hyn (36% o blaid, 32% yn erbyn).

Fel y nodwyd yn Adran 1.2, yn ystod y gwaith o graffu ar Ddeddf Plant Cymru, casglodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig. Yn eu hadroddiad Cyfnod 1 daethant i'r casgliad bod:

*"*Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'n Pwyllgor yn credu bod dadl gref y bydd y Bil hwn yn lleihau'r risg o niwed posibl i blant a phobl ifanc. Nid ydym yn argyhoeddedig bod

[11] https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/agweddaur-cyhoedd-tuag-at-gosbi-plant-yn-gorfforol-arolwg-sylfaenol-2018.pdf

posibilrwydd y bydd nifer fawr o erlyniadau o ganlyniad i’r Bil hwn. Nid oes tystiolaeth i awgrymu hynny ac nid hwnnw yw safbwynt yr heddlu na Gwasanaeth Erlyn y Goron chwaith. Amlinellir y dystiolaeth fanwl sy’n sail i’r casgliad hwn ym mhennod 3.” (Tudalen 101)[12]

*1.4 Yr effeithiau cadarnhaol arfaethedig ar blant a phobl ifanc*

Bwriad Deddf Plant Cymru yw helpu i ddiogelu hawliau plant drwy wahardd eu cosbi'n gorfforol, a hynny drwy ddileu amddiffyniad cosb resymol. Y bwriad wrth lunio'r ddeddfwriaeth, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth a chymorth i rieni, yw lleihau ymhellach yr arfer o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, a lleihau ymhellach y parodrwydd i oddef yr arfer.

Bydd cychwyn Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru ym mis Mawrth 2022 yn diddymu amddiffyniad cosb resymol, a’r bwriad yw y bydd plant a phobl ifanc Cymru yn tyfu mewn cymdeithas lai treisgar[13], lle mae pawb yn gwybod nad yw'n dderbyniol defnyddio unrhyw ffurf ar gosb gorfforol, a lle caiff rhieni eu cefnogi i ddefnyddio strategaethau disgyblu cadarnhaol sydd â ffiniau clir[14]. Bydd plant yng Nghymru yn cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn yr un ffordd ag oedolion.

Bydd y newid yn y gyfraith yn dileu unrhyw amwysedd a dryswch ymhlith rhieni o ran yr hyn a ystyrir yn gosb gorfforol resymol ac yn rhoi sail gliriach, fwy cyson i weithwyr proffesiynol sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni i fabwysiadu dulliau cadarnhaol o ddisgyblu. Cadarnhaodd amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a oedd yn rhoi tystiolaeth i’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y bydd Deddf Plant Cymru’n rhoi eglurder i’w gwaith ac yn “ychwanegu pwysau” i’r cyngor a roddir eisoes ar dechnegau rhianta cadarnhaol a rheoli ymddygiad[15]. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn codi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol sy’n cefnogi rhieni i’w gwneud yn ymwybodol bod y gyfraith yn newid a bydd yn parhau i wneud hynny yn ystod gweithredu.

Pan fydd Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru’n cychwyn bydd yn cael gwared ar y man gwan cyfreithiol presennol, sy'n caniatáu i oedolion sy'n gweithredu in loco parentis mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn addysgol neu mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ddefnyddio amddiffyniad cosb resymol. Byddai'r gwaharddiad ar gosbi plant yn gorfforol mewn ysgolion prif ffrwd a lleoliadau addysg, felly, yn cael ei ymestyn i bob lleoliad lle mae plant yn dysgu, yn chwarae, yn addoli ac yn derbyn gofal. I gefnogi gweithrediad bydd Llywodraeth Cymru’n gweithio ag unigolion a sefydliadau yn y lleoliadau hyn i sicrhau eu bod yn ymwybodol bod y gyfraith yn newid.

Mae Deddf Plant Cymru’n cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu amodau a fydd yn rhoi'r dechrau gorau posibl i bob plentyn mewn bywyd, a'u galluogi i gyflawni

---

[12] https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12708/cr-ld12708-w.pdf

[13] Elgar FJ, Donnelly PD, Michaelson V, et al 2018 Corporal punishment bans and physical fighting in adolescents: an ecological study of 88 countries BMJ Open;8:e021616. doi: 10.1136/bmjopen-2018-021616

[14] Keating H, 2018, Legislating to Prohibit Parental Physical Punishment of Children, PPIW https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/deddfwriaethu-i-wahardd-rhiant-rhag-cosbi-plant-yn-gorfforol/

[15] https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12708/cr-ld12708-w.pdf

eu potensial[16]. Mae *Ffyniant i Bawb - y Strategaeth Genedlaethol*[17] yn nodi'r blynyddoedd cynnar fel un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod profiadau unigolyn fel plentyn yn chwarae rhan allweddol yn ei ddyfodol, ac mae'n ymrwymo i greu deddfwriaeth i wahardd cosbi plant yn gorfforol. Mae'n adeiladu ar Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[18], a'r sylw a roddir yn hwnnw i hawliau plant, ac mae'n gydnaws â safiad Llywodraeth Cymru yn erbyn trais o bob math, gan gynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol[19].

Mae diddymu amddiffyniad cosb resymol hefyd yn gyson ag Argymhelliad 2006 (19) Cyngor Ewrop[20]. Mae hwn yn argymell y dylai llywodraethau aelod-wladwriaethau greu'r amodau angenrheidiol ar gyfer rhianta cadarnhaol er budd pennaf y plentyn. Diffinnir rhianta cadarnhaol fel ymddygiad sy'n seiliedig ar fudd pennaf y plentyn, gan ei feithrin a'i rymuso, mewn ffordd ddi-drais, gan sicrhau bod ei anghenion a'i fuddiannau yn cael eu cydnabod, a rhoi canllawiau iddo. Bydd hyn yn golygu pennu ffiniau er mwyn i'r plentyn allu datblygu'n llawn.

*1.5 Yr effeithiau negyddol posibl ar blant a phobl ifanc*

Yn y bôn, pwrpas Deddf Plant Cymru yw sicrhau ein bod yn cydymffurfio â hawliau plant, ac amddiffyn plant rhag niwed corfforol ar yr un pryd. Fodd bynnag, gallai diddymu’r amddiffyniad cosb resymol olygu y bydd nifer fach iawn o rieni yn wynebu cofnod troseddol, os byddant yn dewis parhau i gosbi'n gorfforol ar ôl i Adran 1 o’r gyfraith gychwyn. Nid ydym yn rhagweld llawer o achosion felly[21]. Gallai hyn effeithio ar blant a phobl ifanc, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mewn ymateb i'r gwaith ymgysylltu â'r rhanddeiliaid, nododd yr heddlu effaith negyddol bosibl ar blentyn sy'n bresennol pan ddaw'r heddlu i gysylltiad â'i riant neu pan gaiff ei riant ei arestio ar ôl i achos o gosbi corfforol gael ei gofnodi. Bydd yr effaith yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol, gan gynnwys oedran y plentyn, ei allu gwybyddol, a sut mae'r rhiant yn ymateb. Bydd yr heddlu yn penderfynu ar unrhyw gamau pellach ar sail nifer o ffactorau, gan gynnwys p'un a oes digon o dystiolaeth[22], pryderon diogelwch, a'r hyn a ystyrir yn fudd pennaf y plentyn.

---

[16] Y Rhaglen Lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen - Uchelgais a Dysgu* https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy_0.pdf

[17] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf

[18] http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents

[19] Yn 2015, daeth Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 i rym. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn amlinellu chwe amcan allweddol, sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf https://llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-strategaeth-2016-i-2021

[20] Argymhelliad Cyngor Ewrop Rec (2006)19 Pwyllgor y Gweinidogion i aelod-wladwriaethau ar bolisi i gefnogi rhianta cadarnhaol: https://archive.crin.org/en/library/legal-database/council-europe-recommendation-rec200619-policy-support-positive-parenting.html

[21] Ni allwn ragweld i sicrwydd yr union effaith pan fydd rhiant yn dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder gan nad oes cynsail yn y DU i gael gwared ar yr amddiffyniad ac oherwydd yr arferion adrodd a chofnodi presennol. Gwnaed yr asesiad hwn ar sail y data gorau sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys profiadau yn Seland Newydd. Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder a'r Memorandwm Esboniadol i gael gwybod mwy.

[22] Cod 2018 ar gyfer Erlynwyr y Goron – fel ar 10/12/18 https://www.cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors

Mae peth ymchwil wedi cysylltu digwyddiadau trawmatig ym mywyd plentyn, ee arestio aelod o'r teulu, â phroblemau iechyd meddwl. Er enghraifft, canfu Roberts et al. (2014) fod[23] plant a welodd eu rhiant neu aelod arall o'r teulu yn cael ei arestio yn arddangos lefelau uwch o anawsterau iechyd meddwl na'u cyfoedion na ddigwyddodd hyn iddynt (t11). Canfuwyd hefyd fod yr anawsterau hyn yn parhau, hyd yn oed lle rhoddir ystyriaeth i achos(ion) trawma arall/eraill a ffactorau risg unigol a theuluol.

Os bydd gofyn i blentyn fod yn bresennol fel tyst mewn llys, rhaid ystyried cael Cyfryngwyr Cofrestredig i fod yn bresennol. Arbenigwyr cyfathrebu yw Cyfryngwyr Cofrestredig (ee therapyddion lleferydd ac iaith, seicolegwyr) a fydd yn helpu i sicrhau bod atebion y plentyn yn cael eu cyfleu'n fwy effeithiol yn ystod cyfweliad â'r heddlu ac wrth roi tystiolaeth mewn achos. Mae'r Cyfryngwyr Cofrestredig yn cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u hachredu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ni fyddai Cyfryngwyr Cofrestredig yn cael eu defnyddio o reidrwydd os oedd tystiolaeth ddiamwys - hynny yw tystiolaeth fel recordiad ar deledu cylch cyfyng neu ddatganiad gan dyst, a fyddai'n golygu na fyddai angen i'r plentyn roi tystiolaeth. Wrth gwrs, byddai angen ystyried prawf lles y cyhoedd, gan gynnwys budd pennaf y plentyn, cyn penderfynu a ddylid cyhuddo neu erlyn.

Gallai fod goblygiadau i roi gwybod i'r heddlu am achos o gosb gorfforol o ran rhai gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd[24]. Mae angen gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd[25] er mwyn asesu addasrwydd unigolion ar gyfer rhai rolau a mathau o hyfforddiant. Os datgelir achos, mater i'r cyflogwr neu'r darparwr hyfforddiant fydd ystyried yr wybodaeth a phenderfynu a yw'r unigolyn yn addas ar gyfer y rôl. Yn ymarferol, bydd cyflogwyr yn rhydd i benderfynu yn ôl eu disgresiwn nad yw achos o'r fath, hyd yn oed os caiff ei ddatgelu, yn effeithio ar addasrwydd yr unigolyn ar gyfer y rôl. Ar y llaw arall, os gwneir penderfyniad negyddol, gallai hyn gael effaith andwyol ar incwm cyfredol neu incwm posibl y teulu. Gallai hynny, yn ei dro, effeithio'n negyddol ar y plentyn neu'r plant dan sylw yn ariannol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol. Nid ydym yn rhagweld llawer o achosion felly[26].

### *1.6 Elfennau lliniaru*

Nid yw Deddf Plant Cymru ynddi'i hun yn gwneud rhieni'n droseddwyr - yr hyn y mae unigolyn yn ei wneud mewn perthynas â'r gyfraith allai olygu ei fod yn cael record droseddol. Mae Deddf Plant Cymru'n gosod dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r newid yn y gyfraith cyn y daw i rym ym mis Mawrth 2022. Cafodd yr ymgyrch godi ymwybyddiaeth ar gyfer Deddf Plant Cymru ei hoedi'n swyddogol tra bod holl waith cyfathrebu Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar yr ymateb i argyfwng Covid-19. Mae'r ymgyrch godi ymwybyddiaeth wedi'i hailgynllunio, a bydd ymgyrch godi ymwybyddiaeth yn dechrau yn haf 2021, yn

---

[23] Roberts, Y. H., Snyder, F. J., Kaufman, J. S., Finley, M. K., Griffin, A., Anderson, J., Marshall, T., Radway, S., Stack, V., Crusto, C. A. (2014). Children exposed to the arrest of a family member: Associations with mental health. Journal of Child and Family Studies, 23, 214–224.

[24] Mae rhagor o fanylion ar gael ym Memorandwm Esboniadol y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

[25] https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service

[26] Ni allwn ragweld i sicrwydd yr union effaith pan fydd rhiant yn dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder gan nad oes cynsail yn y DU i gael gwared ar yr amddiffyniad ac oherwydd yr arferion adrodd a chofnodi presennol. Gwnaed yr asesiad hwn ar sail y data gorau sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys profiadau yn Seland Newydd.  Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder a'r Memorandwm Esboniadol i gael gwybod mwy.

amodol ar ddatblygiadau COVID-19. Hyd hynny, mae'r ffocws ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn cynnwys gwaith gyda chynulleidfaoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ffydd a chynulleidfaoedd penodol eraill, a chynllunio ar gyfer yr ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus. Bydd yr ymgyrch godi ymwybyddiaeth yn cynnwys ymgyrch aml-gyfrwng wedi'i thargedu a fydd yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd penodol yn ogystal ag amrywiaeth o waith hysbysebu a Chysylltiadau Cyhoeddus. Bydd codi ymwybyddiaeth yn parhau am gyfnod ar ôl i'r Ddeddf ddechrau ym mis Mawrth 2022. Yn y cyfnod hwn o godi ymwybyddiaeth, byddwn yn ceisio sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod rhieni, a'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis, yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith cyn iddi ddod i rym ym mai Mawrth 2022. Bydd hyn yn rhoi rhieni a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis mewn sefyllfa i ddewis peidio â chosbi eu plant yn gorfforol, gan osgoi cael eu cyhuddo o drosedd.

Yn ystod y cam gweithredu hwn mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag unigolion allweddol drwy'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta i wella darpariaeth cymorth rhianta cyfredol i rieni. Mae hyn yn cynnwys ehangu'r ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo' fel ei fod yn cwmpasu'r oedran o 0-18, yn hytrach na 0-7 fel y mae ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae gan rieni Cymru fynediad i linell gymorth sy'n cael ei rhedeg gan Family Lives sy'n darparu cymorth emosiynol, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar rianta a bywyd teuluol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Family Lives i gyflogi derbynnydd galwadau sy'n siarad Cymraeg hyd ddiwedd Mawrth 2021. Bydd hyn yn cael ei werthuso i lywio cynlluniau pellach. Mae Family Lives hefyd yn bwriadu ehangu ei ddarpariaeth Gymraeg hyd yn oed ymhellach gyda'r nod o recriwtio gwirfoddolwyr ychwanegol sy'n siarad Cymraeg hefyd.

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer gweithredu, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio â'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau eglurder ynghylch prosesau'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, a sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb i achosion a gofnodir o ymosodiad gan riant ar blentyn. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid allweddol drwy Grŵp Gweithredu Strategol a'r pedair ffrwd waith ganlynol:

- Y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta;
- Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro;
- Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Weithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant;
- Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cynllun Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys

Bydd y grwpiau hyn yn ystyried sut i fonitro effaith y Ddeddf; a oes angen cyflwyno unrhyw brosesau, canllawiau neu hyfforddiant yn sgil diddymu'r amddiffyniad a pha gymorth ychwanegol, os o gwbl, fydd ei angen ar gyfer rhieni, yn cynnwys drwy gynllun dargyfeirio addas.

Mae strategaeth Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar ddwyn cyhuddiadau ac ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys 2017-2021[27] yn nodi'r canlynol:

> *"You cannot address vulnerability solely by way of prosecution, it requires a more sophisticated and effective whole system approach where the Police Service are trusted as professional decision makers who can access a range*

[27]http://www.npcc.police.uk/Publication/Charging%20and%20Out%20of%20Court%20Disposals%20A%20National%20Strategy.pdf

*of services in partnership from early intervention pathways, out of court disposals and, where necessary, prosecution".*

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y gellir lleihau'r effaith niweidiol ar blentyn yn sgil dyfarniad bod ei riant wedi troseddu drwy ddefnyddio ymyriadau cynnar neu ddatrysiadau y tu allan i'r llys.[28] Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cynllun Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn darparu cyngor ac argymhellion o ran yr opsiynau posibl ar gyfer defnyddio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a datblygu cynllun ailgyfeirio addas a allai ddarparu ymyraethau i gefnogi newid ymddygiad a (lle bo'n briodol) symud unigolion i ffwrdd o erlyniad.

**2. Esboniwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.**

Nid yw'n hysbys faint yn union o blant a phobl ifanc sy'n cael eu cosbi'n gorfforol ar ryw ffurf yng Nghymru, ac felly, faint ohonynt y bydd y ddeddfwriaeth yn debygol o effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol arnynt. Fodd bynnag, un o fanteision gweithredu Deddf Plant Cymru'n llwyddiannus yw ei fod yn sicrhau eglurder fel y bydd pob plentyn, rhiant a gweithiwr proffesiynol yn gwybod bod cosbi corfforol yn annerbyniol yng Nghymru, a bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag cosbi corfforol yn yr un ffordd ag oedolion. Mae'r angen am fwy o eglurder yn y gyfraith yn farn a gefnogir gan gyrff darparu iechyd a sefydliadau sy'n cynrychioli ymarferwyr rheng flaen fel Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a ddywedodd wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod y broses graffu y bydd y Ddeddf yn gwella diogelwch i blant.[29]

I'r rhan fwyaf o blant, cartref y teulu yw'r lleoliad ar gyfer gwireddu llawer o'r hawliau a gydnabyddir yn CCUHP. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod gan rieni rôl hanfodol fel gwarcheidwaid ac eiriolwyr hawliau plant, a bod cyfrifoldeb ar y wladwriaeth i gynorthwyo, dylanwadu a chefnogi rhieni yn y rôl honno. Nod Deddf Plant Cymru yw diddymu amddiffyniad cosb resymol a helpu i ddiogelu hawliau plant. Y bwriad yw y bydd hyn, o'i gyfuno â phecyn cymorth, yn annog rhieni i fagu plant mewn modd cadarnhaol sy'n ystyried ac yn adlewyrchu hawliau'r plant.

Bydd rhoi sylw i rianta cadarnhaol yn cefnogi hawliau plant a phobl ifanc ac yn datblygu ar seiliau rhaglenni ac ymgyrchoedd eraill Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi plant a phobl ifanc, gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Magu Plant. Rhowch amser iddo.

Mae Deddf Plant Cymru'n gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ôl-weithredu a chyhoeddi adroddiad interim 3 blynedd ac adroddiad terfynol 5 mlynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. Fel rhan o'r adolygiad hwn bwriedir cynnal y gweithgareddau monitro a gwerthuso canlynol:

- *Effaith ar wasanaethau cyhoeddus:* Mae'r gwaith wedi dechrau, drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro, i ddatblygu dulliau ar gyfer casglu data ar draws sefydliadau i fonitro effeithiau'r ddeddfwriaeth ar wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill.

[28] I gael gwybod mwy am Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, gweler y Memorandwm Esboniadol.
[29] https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12708/cr-ld12708-w.pdf

- *Agweddau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd*: Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio arolygon cynrychiolwyr i olrhain ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid mewn deddfwriaeth a newidiadau mewn agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol. Bydd yr arolygon hyn yn ei galluogi i fonitro'r tueddiadau ar ymwybyddiaeth y cyhoedd a barn ar gosbi plant yn gorfforol, o gymharu ag arolwg sylfaenol agweddau'r cyhoedd at gosbi plant yn gorfforol 2018. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei wneud yn flynyddol a chynnwys data o amrywiaeth o grwpiau poblogaeth.
- *Safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid*: Bydd hi'n bwysig hefyd deall sut mae'r newid yn y gyfraith yn cael ei brofi gan amrywiaeth o randdeiliaid fel rhieni ac ymarferwyr drwy ymchwil ansoddol. Bydd hyn yn helpu i gefnogi a llywio gwaith gweithredu yn ogystal â darparu cyd-destun pwysig ar gyfer dehongli'r ffigurau monitro.

Rhagwelir y bydd yr adroddiadau adolygiad ôl-weithredu'n cyflwyno'r data a gasglwyd drwy'r tair elfen uchod ac yn ystyried goblygiadau ehangach y newid yn y gyfraith. Dylai'r wybodaeth hon ein helpu i asesu'r effaith ar blant ymhellach.

## 3. Erthyglau CCUHP[30]

Mae Pwyllgor y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn wedi cyhoeddi sylw cyffredinol Rhif 8[31] sy'n cydnabod y dylid parchu hawl y plentyn i gael urddas dynol, uniondeb corfforol a'i ddiogelu yr un fath ag oedolion o dan y gyfraith. Barn y Pwyllgor yw bod Partïon Gwladwriaethau sydd wedi cytuno i'r Confensiwn wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r ffaith bod cosb gorfforol yn cael ei derbyn a'i chaniatáu, a chael gwared ar yr arfer teuluol - gan fod cosb gorfforol yn anghydnaws ag amcanion CCUHP.

**Erthyglau 1-5:** Bydd Llywodraeth Cymru yn dilyn yr erthyglau hyn wrth weithredu Deddf Plant Cymru.

Mae Pwyllgor y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn wedi nodi'r egwyddor y dylai gweithredu er budd pennaf y plentyn (**Erthygl 3**) fod yn ystyriaeth sylfaenol ar gyfer pob cam gweithredu sy'n ymwneud â phlant. Mae'r Confensiwn hefyd yn datgan, yn **Erthygl 18**, mai amcan sylfaenol rhieni fydd budd pennaf y plentyn. Mae'r Pwyllgor yn pwysleisio'r angen i'r dehongliad o fudd pennaf y plentyn fod yn gyson drwy'r Confensiwn, sy'n cynnwys y rhwymedigaeth i ddiogelu plant rhag pob math o drais. Yn dilyn cyflwyno Deddf Plant Cymru, bydd angen i'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a gweithwyr rheng flaen proffesiynol eraill wneud penderfyniadau priodol ar ba ymateb i'w gymryd os bydd rhiant neu oedolyn sy'n gweithredu in loco parentis yn cosbi plentyn yn gorfforol. Bydd ystyriaethau lles gorau yn flaenllaw i'r trafodaethau hyn. Y ffordd orau o sicrhau lles gorau plant yw cefnogi rhieni i fabwysiadu dulliau cadarnhaol o reoli ymddygiad plant, yn hytrach na chosb gorfforol.

Mae **Erthygl 12** yn ymwneud â hawl plentyn i fynegi ei farn yn rhydd mewn perthynas â phob mater sy'n effeithio ar y plentyn, gan roi'r pwys dyledus ar farn y plentyn yn ôl

[30] https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf
[31] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2006): Yr Ail Sesiwn ar Ddeugain. Sylw Cyffredinol Rhif 8: Hawl y plentyn i gael ei ddiogelu rhag cosb gorfforol ac unrhyw fath arall o gosb greulon neu ddiraddiol. Genefa: y Cenhedloedd Unedig https://www.refworld.org/docid/460bc7772.html

ei oedran a'i aeddfedrwydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â'i Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol ar gynlluniau ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar Ddeddf Plant Cymru. Y consensws oedd y dylid ymgorffori codi ymwybyddiaeth gyda phlant a phobl ifanc o fewn cyd-destun ehangach hawliau plant, a'i gynnwys mewn gweithgarwch parhaus, fel y gellir ei fframio a'i drafod o fewn cyd-destun hawliau plant mewn lleoliad diogel a phriodol[32].

Mae **Erthygl 37** o'r Confensiwn yn disgwyl i'r Gwladwriaethau sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn cael ei drin neu ei gosbi mewn ffordd ddiraddiol. Mae'r erthygl hon yn cyd-fynd ag **Erthygl 19,** sy'n gofyn i Bartïon Gwladwriaethau gymryd camau cyfreithiol, cymdeithasol ac addysgol priodol i ddiogelu'r plentyn rhag pob math o drais corfforol neu feddyliol, tra byddant dan ofal rhiant (rhieni).

Drwy ddiddymu amddiffyniad cosb resymol, ar y cyd â chodi ymwybyddiaeth a rhoi cyngor a chymorth i rieni, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu **Erthygl 4** yn uniongyrchol. Mae'r erthygl honno'n galw ar wladwriaethau i gymryd y camau cyfreithiol a gweinyddol, a chamau eraill, er mwyn sicrhau'r hawliau sy'n cael eu cydnabod yn y Confensiwn presennol.

**Erthyglau 41 a 42** – mae'r rhain yn ymwneud â darpariaeth statudol sydd eisoes yn bodoli ac yn hyrwyddo'r Confensiwn y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio tuag ato.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn, gan fod pob hawl ddynol, gan gynnwys hawliau CCUHP yn dibynnu ar ei gilydd ac yn gysylltiedig â'i gilydd, ac nad oes modd gwahanu'r naill oddi wrth y llall. Bydd swyddogion yn parhau i gadw mewn cof bod angen sicrhau, cymaint â phosibl, ei fod yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi holl hawliau CCUHP.

---

[32] Cafodd y dull hwn o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ei nodi yn llythyr y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol dyddiedig 12 Gorffennaf 2019 at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: https://busnes.senedd.cymru/documents/s91370/Llythyr%20gan%20y%20Dirprwy%20Weinidog%20Iechyd%20a%20Gwasanaethau%20Cymdeithasol%20-%2012%20Gorffennaf%202019.pdf